Mapio'r ddarpariaeth hyfforddiant garddwriaeth cyfredol (a gofynion presennol y sector)

Awst 2022

Paratowyd ar gyfer

Resilient Green Spaces
Mannau Gwyrdd Gwydn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Lorraine Powell / Tyfu Cymru. Lorraine.powell@lantra.co.uk
Lantra Cymru, Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt LD2 3WY

Paratowyd gan

Pen-y-Wyrlod, Llanvetherine, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, DU
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Trydar: @miller_research

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. Dull 4
   Dull gwreiddiol 4
   Dull diwygiedig 4
3. Tueddiadau cyfredol mewn garddwriaeth fwytadwy 6
   Diddordeb cynyddol mewn tyfu'n fasnachol 6
   Cynnydd yn y galw am fwyd lleol 7
   Prinder gweithwyr 7
   Diddordeb cynyddol mewn technegau organig ac adfywiol 7
   Tueddiadau eraill mewn garddwriaeth fwytadwy 8
4. Anghenion sgiliau mewn garddwriaeth fwytadwy 9
   Ehangder anghenion sgiliau 9
   Cwmpas yr anghenion sgiliau 10
5. Hyfforddi mewn garddwriaeth fwytadwy 12
   Pwysgrwydd hyfforddiant 12
   Llwybrau hyfforddiant cyfredol 12
   Rhwystrau rhag cael mynediad at hyfforddiant 17
   Hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg 18
   Effaith COVID-19 ar hyfforddiant 19
6. Blaenoriaethau'r dyfodol 20
   Cynyddu maint y sector 20
   Mwy o ddarpariaeth ar gyfer prentisiaethau a hyfforddeiaethau 21
   Blaenoriaethau eraill 22
7. Atodiad 1 – Rhestr o Sefydliadau'n Cynnig Cyrsiau AB/AU mewn Garddwriaeth. 24

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o ymchwil ansoddol a gynhaliwyd yn haf 2022 i sgiliau a hyfforddiant mewn garddwriaeth fwytadwy yng Nghymru. Comisiynwyd yr ymchwil gan LANTRA mewn partneriaeth â Chynghrair Gweithwyr y Tir, Prifysgol Caerdydd a Menter Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) Cae Tan ac mae'n rhan o Ffrwd Gwaith 6[1] o'r prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn[2].

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd Cymdeithasol a Gerddi i dreialu systemau bwyd amgen wedi'u hail-leoli gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel yr ysgogiad dros newid ledled Cymru hyd at fis Mehefin 2023.

Mae TyfuCymru wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae Lantra yn defnyddio eu gwybodaeth ddi-ffael a'u profiad o hyfforddiant garddwriaeth yng Nghymru i ddatblygu pecyn hyfforddi peilot sy'n cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal busnesau ffermio garddwriaethol. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Cae Tan CSA a Chynghrair Gweithwyr y Tir. Mae Sefydliad Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd yn mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o yrfaoedd ym maes ffermio garddwriaeth drwy ymgysylltiadau creadigol â phobl ifanc.

1.2 Pwrpas yr ymchwil yw nodi hyfforddiant presennol mewn garddwriaeth fwytadwy yng Nghymru (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) a sut mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd ag anghenion sgiliau cyfredol yn y sector, gyda'r bwriad o nodi bylchau yn y ddarpariaeth a blaenoriaethau'r dyfodol.

1.3 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

---

[1] Adeiladu Sgiliau Ffermio Garddwriaethol y Dyfodol
[2] Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd Cymdeithasol a Gerddi i dreialu systemau bwyd amgen wedi'u hail-leoli gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel yr ysgogiad dros newid ledled Cymru hyd at fis Mehefin 2023.

- Mae adran 2 yn amlinellu'r dull o ymdrin â'r ymchwil gan gynnwys manylion addasiadau i'r dull arfaethedig gwreiddiol.
- Mae adran 3 yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol cyfredol mewn garddwriaeth fwytadwy.
- Mae adran 4 yn disgrifio maint yr anghenion sgiliau yn y sector a'r meysydd penodol a'r grwpiau rhanddeiliaid lle mae bylchau sgiliau yn fwyaf amlwg.
- Mae adran 5 yn dogfennu barn rhanddeiliaid ar bwysigrwydd hyfforddiant mewn garddwriaeth fwytadwy a chwmpas hyfforddiant cyfredol yn y sector.
- Mae adran 6 yn canolbwyntio ar y camau a'r blaenoriaethau nesaf ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant yn y sector garddwriaeth fwytadwy.

2. Dull

Dull gwreiddiol

2.1 Y bwriad cychwynnol oedd cynnal ymarfer mapio meintiol i raddau helaeth, gan gyfrifo nifer y rhaglenni dysgu a'r gwobrau dysgu perthnasol a ddarparwyd yng Nghymru lle mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu a nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad ato[3]. Byddai hyn yn cael ei ategu gan nifer fach o gyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn deall natur y cyflenwad a'r galw a'r cyd-destun ehangach i sgiliau a hyfforddiant mewn garddwriaeth fwytadwy. Profodd y dull hwn yn anymarferol am ddau reswm allweddol:

- Nid oedd modd sicrhau'r data angenrheidiol o'r adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cymru i fapio'r gweithgarwch dysgu presennol yn y modd arfaethedig, h.y.: Setiau Data Dysgwyr[4], Set ddata Darparwr Dysgu[5], Setiau data gweithgaredd dysgu[6] a Setiau data gwobrau[7].
- Nid yw nodi darpariaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar arddwriaeth fwytadwy (yn hytrach na garddwriaeth addurnol, er enghraifft) yn bosibl heb adolygiad manwl o bob manyleb gwrs, nad oedd o fewn cwmpas yr adnodd sydd ar gael ar gyfer yr astudiaeth hon.

2.2 Ar ben hynny, dangosodd cyfweliadau cwmpasu cychwynnol fod cyfran sylweddol o drosglwyddo dysgu a gwybodaeth yn y sector yn digwydd yn anffurfiol, trwy fentora a chyngor a gynigir drwy gyrff y sector a'r trydydd sector, na fyddai'n cael ei gynnwys mewn adolygiad desg o gymwysterau ffurfiol, achrededig.

Dull diwygiedig

2.3 O ystyried yr heriau hyn, cymerwyd y penderfyniad i gynnal astudiaeth ansoddol yn bennaf, yn cynnwys cyfweliadau ag ystod ehangach a nifer fwy

---

[3] I gynnwys hyfforddi hyd at gyrsiau lefel 4 a rhai heb eu hachredu, a gyflwynir drwy Ddysgu yn y Gweithle, Addysg Bellach a Chyrsiau Lefel Uwch.
[4] Ar gyfer ULR, cod post, oedran a rhyw ac ethnigrwydd o bosibl.
[5] Cysylltu dysgwyr â darparwr.
[6] Cysylltu dysgwr â'r ddarpariaeth a'r lleoliad.
[7] Deall cyfraddau cwblhau a data sylfaenol

o randdeiliaid, ochr yn ochr ag arolwg rhanddeiliaid ar-lein i ymestyn cyrhaeddiad yr ymchwil.

2.4 Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau a gynhaliwyd dros y ffôn neu MS Teams gyda deg rhanddeiliad gan gynnwys cynrychiolwyr o:

- Gymdeithas y Pridd
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Garddwriaeth Cymru
- Cynghrair Gweithwyr y Tir
- Prifysgol Caerdydd
- Addysg Bellach
- Tyfwyr presennol.

2.5 Yn ogystal, cafodd arolwg ar-lein ei rannu drwy'r rhestrau e-bostio o randdeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn y cyfweliadau ansoddol yn ogystal â chysylltiadau a rennir gan LANTRA. Cyflwynodd 12 o bobl ymateb.

3. Tueddiadau cyfredol mewn garddwriaeth fwytadwy

Diddordeb cynyddol mewn tyfu'n fasnachol

3.1 Datblygiad allweddol yn y sector garddwriaeth fwytadwy fu'r cynnydd amlwg mewn pobl sydd eisiau tyfu'n fasnachol. Dyma'r duedd a gafodd ei nodi'n amlaf gan y rhai a oedd wedi cwblhau'r arolwg, a nodwyd gan naw allan o ddeuddeg ymatebydd. Mae Cynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) wedi gweld cynnydd o 30 y cant mewn aelodaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Fenter Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) wedi profi twf tebyg ac mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SFG) yn cefnogi prosiectau cymunedol yn gynyddol i fod yn fwy masnachol.

3.2 Mae llawer o'r diddordeb hwn gan bobl sy'n hollol newydd i amaethyddiaeth sy'n dewis garddwriaeth dros dda byw oherwydd ei fod yn rhatach o ran costau sefydlu a gofynion tir ac o bosib yn fwy syml: "[gyda garddwriaeth] dydych chi ddim yn delio â lladd-dai, hylendid bwyd ac mae'r gadwyn gyflenwi yn llawer haws." (Tyfwr) Ar ben hynny, efallai y bydd gan newydd-ddyfodiaid brofiad hefyd o dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain ac mae'r newid yn adlewyrchu twf ehangach deietau sy'n seiliedig ar blanhigion a phryderon ynghylch ôl troed carbon cig coch. Mae llawer o'r newydd-ddyfodiaid hyn yn newid gyrfa ac yn chwilio am ffordd amgen o fyw. Mae ffocws tyfu ar gnydau gwerth uwch – salad, ffa, courgettes, tomatos a ffrwythau meddal ac ati, gyda llai o gapasiti i dyfu cnydau gwraidd a grawnfwydydd ar raddfa caeau.

3.3 Ond mae dau broblem allweddol gyda'r duedd hon:

- Yn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r twf mewn busnesau bach a micro, ac mae llawer ohonynt yn amharod neu'n methu tyfu'n fwy ac felly'n cyfrannu'n bennaf at y farchnad leol, yn hytrach na'r gadwyn gyflenwi bwyd ehangach: "mae pobl yn mynd i mewn i [ddaliadau] hanner i un erw, a'r hyn sydd ei angen arnom yw 50 erw i fwydo cymunedau a goresgyn problemau'n ymwneud â chadwyni cyflenwi." (Corff sector)
- Yn ail, nid yw'r mewnlifiad hwn o fentrau garddwriaeth fwytadwy newydd yn cyfateb i fwy o ddiddordeb mewn a galw am hyfforddiant; mae pobl yn dod i mewn i'r sector ac yn disgwyl 'dysgu wrth fynd yn eu blaenau', arbrofi drwy brofi a methu neu ddefnyddio dysgu anffurfiol gan You Tube neu ffynonellau rhyngrwyd eraill. Mae'n risg sy'n bygwth llwyddiant hirdymor busnes newydd: "[mae] canfyddiad nad oes angen dysgu arnoch chi, ond mewn gwirionedd wrth i chi gyrraedd pwynt rhedeg busnes, rydych chi'n sylweddoli bod angen hyfforddiant arnoch chi. Tybed a fyddwn yn gweld ton o'r busnesau hyn yn methu neu'n chwilio am hyfforddiant." (Asiantaeth gymorth)

Cynnydd yn y galw am fwyd lleol

3.4 Nododd pob ymatebwr arolwg (11 allan o 12) dwf mewn pobl sydd eisiau prynu bwyd ffres, lleol. Mae'r pandemig COVID-19 wedi bod yn gatalydd mawr i hyn, gan ychwanegu at alw sydd eisoes yn cynyddu am ffrwythau a blychau llysiau, er bod hyn wedi lleihau ychydig ar ôl codi'r cyfnodau clo.

3.5 Mae'r ymchwil yn awgrymu efallai nad yw cyflenwyr presennol yn gallu cwrdd â llawer mwy o gynnydd yn y galw, sy'n debygol iawn o ddigwydd gyda chostau tanwydd cynyddol ac amhariadau ar gadwyni cyflenwi bwyd rhyngwladol: "Mae'r galw am gynlluniau bocs wedi mynd trwy'r to – mae'r galw wedi'i fodloni drwy gynyddu cynhyrchiant, ond mae'r sector bellach wedi cyrraedd ei gapasiti, felly bydd angen newydd-ddyfodiad i fodloni unrhyw alw pellach." (Tyfwr) (Tyfwr)

3.6 Mae'r agenda bwyd iach hefyd yn chwarae rhan yn y duedd hon, ond mae rhanddeiliaid wedi beirniadu nad yw cynllunwyr polisi yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn cyflenwad yn ogystal â hybu'r galw: "O'r llywodraeth, [mae] ymgyrch fawr wedi bod i gynyddu'r defnydd o ffrwythau a llysiau, ond dim digon o fuddsoddiad yn y sector - h.y.: o ble mae'r [bwyd] yma'n mynd i ddod." (Corff sector)

Prinder Gweithwyr

3.7 Pryder allweddol cydnabyddedig eang i'r sector yw marchnad lafur sy'n dirywio, yn enwedig o ran gweithwyr â sgiliau; mater a gafodd ei gydnabod gan ddau draean o'r rhai a ymatebodd yr arolwg. Priodolir hyn i Brexit ac i raddau llai'r pandemig. Mae colli llawer o weithwyr o dramor wedi cael ei ddwysáu gan ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r diwydiant i weithio: "Ni fydd pobl ifanc y DU yn cymryd lle swyddi casglwyr ffrwythau Pwylaidd - maen nhw eisiau bod yn flogwyr ac ati. Maen nhw eisiau bywyd hawdd." (Tyfwr)

3.8 3.8 Mae llai o ymadawyr ysgol yn dewis dilyn cyrsiau garddwriaethol mewn colegau Addysg Bellach ac mae llawer o'r rhai sy'n gwneud hynny yn ei ddewis fel 'dewis olaf' ac nid ydynt yn cael eu cymell i weithio yn y sector wedyn. Mae tyfwyr yn adrodd, yn ogystal â diffyg sgiliau technegol, bod pobl sydd ar gael i weithio yn aml heb y foeseg waith gywir: "Dyw llawer ddim yn gallu gwneud diwrnod llawn o waith. Dydyn nhw ddim yn ffit iawn - mae'n agwedd fwy na dim byd arall." (Tyfwr)

3.9 Mae hyn wedi cyfyngu ar y sgôp i dyfwyr presennol ehangu ac mae rhai hyd yn oed wedi torri'n ôl ar gynhyrchu o ystyried diffyg staff addas.

Diddordeb cynyddol mewn technegau organig ac adfywiol

3.10 Cyfeiriodd y mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg a'r rhai gafodd eu cyfweld at gynnydd mewn diddordeb mewn garddwriaeth agro-ecolegol, fel arfer ar raddfa fach. Yn hanesyddol, mae gan y sector garddwriaeth gyfran uwch o

gynhyrchwyr ardystiedig organig na sectorau amaethyddol eraill ac mae cynnydd hefyd wedi bod mewn tyfwyr sy'n mabwysiadu egwyddorion organig hyd yn oed os nad ydynt wedi mynd am ardystiad llawn.

3.11 Mae mater ardystio'n ddiddorol, gan fod llawer o dyfwyr ar raddfa lai yn dibynnu ar enw da lleol a pherthynas uniongyrchol â'u cwsmeriaid. Mae'r tyfwyr hyn i bob pwrpas yn agor eu safleoedd - gan ganiatáu i gwsmeriaid ymweld a gweld sut mae pethau'n cael eu tyfu - ac felly'n ffafrio tryloywder dros ardystio.

3.12 Yn gysylltiedig â'r duedd hon mae pryder eang am gynaliadwyedd a newid hinsawdd, diddordeb mewn adeiladu cadwyni cyflenwi byrion gwydn, yr angen i ddod yn fwy hunangynhaliol mewn cynnyrch sy'n cael ei dyfu yn y DU ac i leihau ôl troed carbon ein bwyd.

Tueddiadau eraill mewn garddwriaeth fwytadwy

3.13 Mae tueddiadau eraill llai cyffredin yn y sector yn cynnwys:

- Niferoedd cynyddol o brosiectau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned (CSA) a phrosiectau cymdeithasol ar raddfa fach, gyda'r nod o gefnogi lles yn ogystal â chynhyrchu bwyd
- Technegau penodol, gan gynnwys 'Dim Cloddio' a thyfu fertigol
- Pobl yn dod i'r sector gyda chymwysterau lefel uchel[8] ond nid mewn garddwriaeth yn benodol.

[8] Yn ôl arolwg diweddar o aelodau Cynghrair y Gweithwyr Tir, roedd gan 77 y cant gymhwyster gradd neu uwch ond dim ond un rhan o bump (21 y cant) oedd â chymhwyster amaethyddol yn benodol ar Lefel 2 neu'n uwch.

4. Anghenion Sgiliau mewn Garddwriaeth Fwytadwy

Ehangder Anghenion Sgiliau

4.1 Ymhlith yr ymatebwyr arolwg roedd canfyddiad cyffredinol o anghenion sgiliau cyfredol yn y sector; yn ôl pump allan o 11, roedd diffyg sgiliau mewn garddwriaeth fwytadwy yng Nghymru yn 'arwyddocaol iawn', ac yn ôl chwech allan o 11 yn 'arwyddocaol'.

4.2 Un mater allweddol yw'r camgymharu rhwng lefel y sgiliau a'r profiad sydd gan bobl sydd eisiau gweithio yn y sector a'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd gan dyfwyr sy'n chwilio am staff. Er enghraifft, mae llawer o newydd-ddyfodiaid brwd sydd wedi bod trwy hyfforddeiaeth chwech neu ddeuddeg mis, sydd wedyn yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith oherwydd bod cyflogwyr yn chwilio am staff ar lefel uwch, er enghraifft y rhai sydd â'r sgiliau i fod yn brif dyfwyr.

4.3 Hefyd mae prinder cyrsiau hyfforddi ffurfiol priodol yng Nghymru, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o bobl sy'n dod i mewn i'r sector yn meithrin sgiliau drwy lwybrau ymarferol fel hyfforddeiaethau a hyd yn oed gwirfoddoli yn unig. Bydd eraill – yn enwedig y rhai sy'n awyddus i ddechrau busnes – yn dibynnu'n helaeth ar YouTube a chyngor ac arweiniad ar-lein ond mae peryglon gyda hyn; nid yw'r rhaglenni bob amser yn benodol berthnasol i'r DU ac nid ydynt yn sicr o ansawdd.

4.4 Serch hynny, roedd llawer o randdeiliaid wedi nodi bod eu sylwadau'n rhai anecdotaidd yn unig ac nad oedd tystiolaeth ffurfiol i ategu hyn. Atgyfnerthwyd hyn gan y rhai sydd wedi bod yn ymchwilio yn y maes hwn a nododd nad oes digon o ddata i fesur anghenion sgiliau yn gywir yn y sector. Rhan o'r broblem yw diffyg eglurhad am yr hyn a olygir gan anghenion sgiliau – gall swyddi anodd eu llenwi, er enghraifft, ymwneud â materion cyflenwad llafur ehangach neu gyflog ac amodau anneniadol yn ogystal â bylchau mewn setiau sgiliau penodol neu ddiffyg cymwysterau perthnasol.

Cwmpas Anghenion Sgiliau



Ffynhonnell: Arolwg Mapio Hyfforddiant Garddwriaethol, 2022, Q3: *Sut fyddech chi'n graddio'r anghenion hyfforddiant canlynol o ran pwysigrwydd?*

4.5 Mae meysydd penodol o sgiliau sydd eu hangen o fewn y sector yn tueddu i ddisgyn i un o dri phrif grŵp:

- Sgiliau tyfu technegol, gan gynnwys llawer o'r rhai a nodwyd yn y tabl uchod, yn ogystal â:
  - Dyfrhau a rheoli dŵr
  - Cynllunio cnydau a chylchdro cnydau
  - Compostio
  - Rheoli plâu a chlefydau
- Rheoli busnes, adnoddau dynol a marchnata, gan gynnwys:
  - Cynllunio busnes, cyfrifo mewnbynnau yn erbyn cynnyrch
  - Cael mynediad at farchnadoedd a byrhau cadwyni cyflenwi
  - Rheoli gwirfoddolwyr a gweithio gyda hyfforddeion.
- Sgiliau uwch-dechnoleg, megis:
  - Hydroponeg
  - Garddwriaeth fanwl
  - Ffermio fertigol / ffermio trefol.

4.6 Mater trawsbynciol sy'n ymwneud ag ystod o ffactorau y tu hwnt i sgiliau yn unig yw'r prinder tyfwyr sy'n gallu tyfu ar raddfa caeau ac sydd felly'n gallu cynnig lleoliadau datblygu sgiliau a hyfforddiant ar ffermydd mawr a chanolig. Mae hyn yn golygu bod bwlch sgiliau sylweddol yn y defnydd o beiriannau, er enghraifft defnyddio plannwr neu lif gadwyn: "fedrwch chi ddim dysgu sut i yrru tractor drwy ddarllen llyfr." (Tyfwr)

4.7 Mae'r math o fylchau sgiliau a'r catalydd ar gyfer y bylchau hyn a'u heffaith yn wahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r gweithlu. Ar gyfer newydd-ddyfodiaid, gall y rhan fwyaf os nad pob un o'r sgiliau penodol a restrir uchod fod yn

ddiffygiol, yn dibynnu ar ansawdd ac ehangder y profiad a gawsant drwy leoliad gwaith neu hyfforddeiaeth. Er enghraifft, dim ond ar gyfer mis Mawrth i fis Medi y gall fferm eu cymryd, gan atal profiad o'r sector yn “nhymor segur” y gaeaf.

4.8 Mae pobl sydd eisoes yn ffermio – er enghraifft ffermwyr da byw sy’n dymuno trosi neu arallgyfeirio i arddwriaeth fwytadwy – yn debygol o fod â diffyg nid yn unig mewn sgiliau tyfu technegol ond hefyd ddealltwriaeth o lwybrau i farchnadoedd a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â’r offer ar gyfer plannu, cynaeafu a storio cnydau.

4.9 I arddwriaethwyr profiadol, sydd efallai wedi dysgu llawer o’r hyn y maent yn ei wybod iddynt eu hunain ac wedi ennill sgiliau cynyddol “yn y gwaith” ond sydd bellach yn edrych i ehangu cynhyrchiant, gall y prif faterion ymwneud â chadw i fyny ag arloesedd, dosbarthu y tu hwnt i’r farchnad leol uniongyrchol, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol.

5. Hyfforddiant mewn garddwriaeth fwytadwy

Pwysigrwydd hyfforddiant

5.1 Roedd holl ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod hyfforddiant ffurfiol ar gyfer garddwriaeth fwytadwy yn bwysig (pedwar o bob saith) neu'n bwysig iawn (tri o bob saith) ac roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn unfrydol o ran gweld gwerth hyfforddiant, yn enwedig i'r rhai sy'n newydd i'r sector.

5.2 Y consensws cyffredinol oedd bod cyfuniad o brofiad gwaith ymarferol a rhywfaint o ddysgu ffurfiol yn optimwm. Mewn gwirionedd, mae llawer o bobl yn dod i mewn i'r sector ac yn dysgu 'yn y gwaith' ond gall hyn arwain at gamgymeriadau (sy'n aml yn ddrud): "gallwch ddysgu wrth fynd ymlaen ond mae'n cymryd amser i ddysgu am wyddoniaeth bridd, iechyd planhigion ... os oes gennych chi hyfforddiant ymlaen llaw fe allwch chi fod yn llwyddiannus o'r dechrau." (Corff sector)

5.3 I newydd-ddyfodiaid, yn ogystal â chaffael gwybodaeth a sgiliau hanfodol, mae hyfforddiant ffurfiol yn darparu hygrededd i ddarpar gyflogwyr: "'mae'n dangos rhyw fath o ymroddiad rydych chi wedi cymryd yr amser i ddysgu ac rydych chi o ddifrif amdano yn hytrach na bod rhywun sy'n dweud 'O wel, rwy'n hoffi tyfu llysiau yn fy ngardd'". (Tyfwr)

5.4 Gall hyfforddiant – yn ffurfiol ac yn anffurfiol - gefnogi adeiladu rhwydwaith a chymorth parhaus gan gymheiriaid hefyd, a all fod yn amhrisiadwy yn nyddiau cynnar sefydlu busnes neu chwilio am waith yn y sector: Dysgais gymaint o gael hyfforddiant ffurfiol a gweithio gyda rhywun sydd â phrofiad yn y sector. Rhoddodd well dealltwriaeth i mi o'r sector ac mae wedi helpu i mi rwydweithio – rwy'n dal mewn cysylltiad â'r garfan es i drwy hyfforddiant gyda nhw." (Tyfwr)

5.5 Mae hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer tyfwyr profiadol yn bwysig am gadw i fyny gyda datblygiadau technolegol a newidiadau polisi fydd yn effeithio ar eu busnes, er enghraifft cael gwared ar fawn erbyn 2027.

Llwybrau hyfforddi cyfredol

Prentisiaethau/hyfforddeiaethau

5.6 Nododd dau draean o'r rhai a ymatebodd yr arolwg brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith fel un o'r llwybrau mwyaf cyffredin ar gyfer cael mynediad i hyfforddiant garddwriaeth fwytadwy ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Er hynny, mae trafodaethau mwy manwl gyda rhanddeiliaid yn awgrymu bod busnesau ffurfiol – wedi'u hachredu – yn brin ac felly mae'n bosibl bod y rhai a oedd yn cwblhau'r arolwg yn cyfeirio at hyfforddeiaethau mwy anffurfiol, sy'n cael eu cynnig gan rai tyfwyr masnachol a mentrau Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol (CSAs) ledled Cymru.

5.7 Mae data gan Stats Cymru[9] yn dangos bod 30 prentisiaeth mewn garddwriaeth yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn 2020/21, gyda 20 o'r rheiny ar Lefel 2 a 10 ar Lefel 3. Fodd bynnag, nid yw data ar gael i nodi a oedd y rhain mewn garddwriaeth fwytadwy neu arddwriaeth addurnol.

5.8 Rhwng 2007 a 2018, roedd Cymdeithas y Pridd yn rhedeg rhaglen Tyfwyr y Dyfodol, a hyfforddodd dros 120 o brentisiaid mewn cynhyrchu ffrwythau a llysiau cynaliadwy. Dechreuodd fel rhaglen dwy flynedd, lle'r oedd gan brentisiaid gontract cyflogaeth dwy flynedd ar y fferm letyol ac yn mynychu rhaglen strwythuredig o seminarau, gweithdai a chyfleoedd rhwydweithio a ddarparwyd gan Gymdeithas y Pridd dros benwythnosau. Cafodd prentisiaid isafswm cyflog brofiad gydol y flwyddyn o weithio ar fferm yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol a mentora.

5.9 Daeth y rhaglen i ben yn 2018 am ddau brif reswm:

- Cyllid: er bod y rhaglen yn derbyn cymhorthdal, bu'n rhaid i hyfforddeion dalu £2,000 i gymryd rhan - ffi oedd yn afresymol i rai. Pan ddaeth y cymhorthdal i ben, daeth ffioedd y rhaglen yn anfforddiadwy i brentisiaid oedd ond yn ennill yr isafswm cyflog.
- Diffyg capasiti ffermydd lletyol: ni allai ffermydd gwesteiwr fforddio cymryd hyfforddeion (cyflogedig) mwyach yn ystod misoedd tawel.

5.10 Er gwaethaf cyflwyno rhaglen fyrrach, hyd blwyddyn, ac wedi hynny rhaglen ddwys chwe mis i leihau'r baich ar ffermydd lletyol, gwelwyd bod y rhaglen yn anymarferol yn ariannol.

5.11 Mae Cae Tan CSA yn rhedeg Rhaglen Ar gyfer Tyfwyr y Dyfodol hefyd sy'n cynnwys rhwng 12 a 15 hyfforddeion yn gweithio ar ffermydd ledled Cymru. Mae hyfforddeion yn dod at ei gilydd ar ffermydd ar gyfer rhaglen hyfforddi ddwys dros benwythnos bump neu chwe gwaith y flwyddyn. Mae diddordeb cynyddol yn y rhaglen gan ddarpar hyfforddeion sydd fel arfer yn bobl sydd wedi gwirfoddoli gyda'r CSA neu ar brosiectau tebyg eraill ac sydd gan amlaf yn eu 20au canol hwyr - h.y.: nid disgyblion sy'n gadael yr ysgol.

5.12 Er hynny, mae gwerth hyfforddeiaeth yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd yr hyfforddwr – faint o sylw maen nhw'n ei roi i'r hyfforddai, pa mor fanwl maen nhw'n esbonio cyd-destun gwaith sydd angen ei wneud ac egwyddorion craidd a faint maen nhw'n cynnwys hyfforddeion mewn datblygiad busnes ehangach yn hytrach na'u defnyddio i gwblhau tasgau ynysig.

[9] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Lifelong-Learning-Wales-Record/learningprogrammestarts-in-workbasedlearning

5.13 5.13 Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod hyfforddeiaeth dda ar y fferm yn llawer gwell na chymhwyster ffurfiol ar gyfer paratoi newydd-ddyfodiaid i'r sector.

5.14 Prif anfantais y llwybr hyfforddi hwn yw nad yw'r hyfforddai yn ennill fawr ddim os rhywbeth wrth hyfforddi. Mewn llawer o achosion, gallent dderbyn llety a bwyd ac efallai tâl, sydd ddim yn ymarferol i unrhyw un sydd â chyfrifoldebau gofalu neu forgais, er enghraifft. Un opsiwn a oedd ar gael i gyflogi pobl ifanc 16-24 oed sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor oedd y Cynllun Kickstart blaenorol. Dim ond am y chwe mis cyntaf yr oedd cyllid ar gael, ac felly nid oedd yn ffynhonnell refeniw gynaliadwy.

5.15 Y mater arall yw nad yw hyfforddeiaethau bob amser yn cael eu gwerthfawrogi mor uchel â hyfforddiant ffurfiol. Nid yw'r cynllun Grantiau Bach - Dechrau Busnes Garddwriaeth y mae Llywodraeth Cymru ei gynnig yn ystyried profiad fferm fel hyfforddiant dilys: "mae diwrnod o hyfforddiant Garddwriaethol achrededig yn cyfrif am fwy na blwyddyn o brofiad fferm." (Corff sector)

Darpariaeth AB/AU yng Nghymru

5.16 Nid oedd data cynhwysfawr addysg bellach ar gyfer hyfforddiant garddwriaeth fwytadwy ar gael gan Lywodraeth Cymru, ond mae sawl coleg sy'n cynnig cyrsiau. Fel gyda phrentisiaethau, nid yw'n bosibl penderfynu a yw cyrsiau wedi'u hanelu at arddwriaeth addurnol (garddio, parciau ac ati) neu arddwriaeth fwytadwy.

5.17 Yn 2020/21 roedd 605 o fyfyrwyr ar gyrsiau garddwriaeth a choedwigaeth yng Nghymru, lawr o 2675 yn 2012/13. Roedd mwy na dwy ran o dair o fyfyrwyr yn ddynion

5.18 Mae enghreifftiau o'r cyrsiau sydd ar gael isod:

- Mae Coleg y Mynydd Du yn cynnig Diploma Lefel 2 mewn garddwriaeth adfywiol, mewn cydweithrediad â Grŵp Colegau NPT
- Mae Coleg Pen-y-bont yn cynnig Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) mewn Garddwriaeth (Cynhyrchu a Dylunio) sy'n cynnwys rheoli ffrwythau a llysiau a garddwriaeth organig
- Mae Coleg Sir Gar yn cynnig Prentisiaeth mewn Garddwriaeth L2, Garddwriaeth Ymarferol L2 ac Egwyddorion Garddwriaeth RHS.
- Mae Coleg Cambria yn darparu tystysgrifau Lefel 1 a 2 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith, sy'n cynnwys agweddau ar blannu, lluosogi a chynaeafu cnydau.

5.19 Mae'n debygol y bydd mwyafrif y rhai sy'n dymuno dilyn cyrsiau garddwriaeth ar lefel Addysg Bellach/Addysg Uwch yn gwneud hynny y tu allan i Gymru, yn fwyaf tebygol efallai yn:

- Coleg Pershore

- Reaseheath

Mae'r Ysgol Newydd Bwyd Cynaliadwy a Ffermio ym Mhrifysgol Harper Adams[10] yn debygol o ddarparu darpariaeth berthnasol hefyd, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant mewn cynhyrchu ar raddfa caeau.

5.20 Dim ond un o'r chwe ymatebwr arolwg a atebodd y cwestiwn a ystyriodd gyrsiau coleg addysg bellach yng Nghymru yn llwybr cyffredin ar gyfer cael hyfforddiant garddwriaeth fwytadwy i newydd-ddyfodiaid. Yn yr un modd, dywedodd y rhai a gafodd eu holi mai ychydig o bobl fyddai'n dod i mewn i'r sector fyddai wedi cael cymhwyster perthnasol mewn coleg Addysg Bellach yn gyntaf – neu o leiaf nid o goleg addysg bellach yng Nghymru.

5.21 Y prif reswm am hyn yw diffyg cyrsiau Addysg Bellach ar arddwriaeth fwytadwy, gyda'r rhan fwyaf o gymwysterau sydd ar gael yn canolbwyntio'n drwm ar arddwriaeth addurnol yn hytrach na ffrwythau a llysiau. Roedd rhai rhanddeiliaid yn feirniadol o'r diffyg dysgu ymarferol mewn colegau Addysg Bellach, rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn hanfodol i baratoi ar gyfer gyrfa yn y sector.

5.22 O safbwynt y colegau, mae'n her i'w gwneud hi'n hyfyw yn economaidd i gynnig cyrsiau mewn garddwriaeth fwytadwy: "mae'n ddrud i'w ddarparu ... mae angen offer fel tai gwydr a nid oes ganddynt niferoedd o fyfyrwyr i'w gwneud hi'n gost-effeithiol ... yn ogystal â hyn mae diffyg tyfwyr sy'n gweithredu ar y raddfa i gynnig lleoliadau." (Cynrychiolydd Coleg Addysg Bellach)

5.23 Nododd y rhai sy'n addysgu mewn colegau addysg bellach nad yw'r math o fyfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn o reidrwydd yn edrych i weithio yn y sector garddwriaeth fwytadwy beth bynnag. Mae gan lawer ar gyrsiau rhagarweiniol anableddau dysgu neu agwedd neu ymddygiad gwael "neu wedi bod ar gyrsiau eraill ac nad ydynt eisiau gweithio - maen nhw'n ei gymryd fel y dewis olaf." (Cynrychiolydd Coleg Addysg Bellach)

5.24 Mae hyn o bosib yn adlewyrchiad ar y canfyddiad o arddwriaeth fwytadwy mewn ysgolion, lle nad yw'n cael ei ystyried yn opsiwn gyrfa deniadol: "Mae bron yn cael ei weld mewn ysgolion bod y plant drwg sy'n gwneud garddio." (Cynrychiolydd Coleg Addysg Bellach)

5.25 Mae'r myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau lefel uwch – er enghraifft yr HND mewn Garddwriaeth – Cynhyrchu a Dylunio yng Ngholeg Pen-y-bont – yn tueddu i fod yn fyfyrwyr aeddfed, yn aml yn chwilio am newid gyrfa ac sy'n fwy tebygol o fynd ymlaen i weithio yn y sector.

